# Cynllun Busnes
# Lefel 1

# Adroddiad Monitro
# Chwarter 1 2018-19



# Cynllun Busnes GwE 2017-20
# Lefel 1

| 1. SAFONAU | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf*** | ***Yr Her*** | ***Gweithredu*** | ***Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019*** | ***Cyfrifoldeb*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Monitro Chwarter 1*** |
| 1<br>1.6<br>1.7<br>E1<br>C<br>ALl x 6<br>R7<br>R15 | **SAFONAU - Sicrhau y cyrhaeddir y safonau uchaf ym mhob cyfnod allweddol a bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd priodol mewn llythrennedd a rhifedd o un cyfnod allweddol i'r llall. Bod pob dysgwr yn ennill cymwysterau sy'n berthnasol i'w gallu a'u potensial ac yn gweithio tuag at fod yn ddwyieithog erbyn eu bod yn un ar bymtheg oed.** | **Cyfnod Sylfaen - gwella perfformiad y cyfnod sylfaen.** | Gwelliannau mewn safonau ar ddiwedd y CS ar draws y rhanbarth. | Marc B.Hughes | Mehefin 2018 | Adroddiad i'w gyflwyno yn Chwarter 2. |
| 1<br>1.8<br>1.9<br>E1<br>C<br>ALl x 6<br>R7 | | **Cynnal safonau da Cyfnod Allweddol 2 gan wella'r perfformiad yng Nghonwy.** | Cynnal safonau da yn yr Awdurdodau lleol eraill.<br><br>Cynnydd yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni yn y DPC. | Marc B.Hughes | Mehefin 2018 | Adroddiad i'w gyflwyno yn Chwarter 2. |

## 1. SAFONAU

| *Cyf* | *Yr Her* | *Gweithredu* | *Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019* | *Cyfrifoldeb* | *Dyddiad Targed* | *Monitro Chwarter 1* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1<br>1.1 - 1.5<br>U<br>ALl x 6<br>R4<br>R7<br>R14 | | **Gwella safonau yng Nghyfnod Allweddol 4:**<br>• **Gwella safonau yn y pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 4.** | Gwelliant ym mherfformiad dangosydd L2+ o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol.<br><br>Bydd canran yr ysgolion sy'n perfformio'n uwch na'r canolrif mewn meincnodau PYD ar gyfer L2+ yn codi o 5%.<br><br>55% o ysgolion yn perfformio yn unol â neu'n uwch na'r deilliant ar gyfer L2+.<br><br>Cynnydd yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni 5A*-A mewn TGAU, neu gyfwerth, o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol.<br><br>Mae gan bob ysgol gynlluniau cefnogaeth da gyda ffocws ar godi safonau yng Nghyfnod Allweddol 4.<br><br>Gwelliant ym mhroffil canlyniadau arolygiadau ysgolion uwchradd. | Elfyn V Jones | Awst 2018 | Adroddiad i'w gyflwyno yn Chwarter 2. |
| 1<br>1.1 – 1.10<br>E1<br>C/ U<br>ALl x 6<br>R4<br>R7<br>R11 | | **Gwella perfformiad dysgwyr PYD, yn enwedig mewn Iaith Saesneg.** | Bydd y bwlch rhwng ein dysgwyr PYD a dim PYD hefyd yn lleihau, o 5% o leiaf, mewn L2+ a'r DCS. | Elfyn V Jones / Marc B.Hughes | Awst 2018 | Adroddiad i'w gyflwyno yn Chwarter 2. |

| 1. SAFONAU | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf*** | ***Yr Her*** | ***Gweithredu*** | ***Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019*** | ***Cyfrifoldeb*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Monitro Chwarter 1*** |
| 1<br>1.1 – 1.5<br>1.8<br>1.9<br>E1<br>U<br>R4<br>R7<br>R14<br>ALl x 6 | | **Gwella perfformiad mewn Iaith Saesneg** | Gwelliant yng nghanlyniadau Iaith Saesneg CA4 o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol. | Gaynor Murphy | Awst 2018 | Adroddiad i'w gyflwyno yn Chwarter 2. |
| 1<br>1.1 – 1.5<br>1.8<br>1.9<br>E1<br>U<br>R4<br>R7<br>R14<br>ALl x 6 | | **Gwella perfformiad mewn mathemateg a rhifedd** | Gwelliant yn Rhifedd a mathemateg CA4 o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol. | Dafydd Gwyn / Delyth Ellis | Awst 2018 | Adroddiad i'w gyflwyno yn Chwarter 2. |
| 1<br>1.1 – 1.10<br>E1<br>C/U<br>ALl x 6<br>R11<br>R14<br>R15 | | **Gwella perfformiad grwpiau o ddysgwyr:**<br>• **PYD**<br>• **Bechgyn**<br>• **MATh** | Gwella perfformiad grwpiau o ddysgwyr (PYD,Bechgyn, MATh) o 1.5, cyfradd y cynnydd cenedlaethol - CS a CA4 | Elfyn V Jones / Marc B.Hughes | Awst 2018 | Adroddiad i'w gyflwyno yn Chwarter 2. |

| **2. CWRICWLWM AC ASESU**<br>***Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel.***<br>***Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.*** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf*** | ***Yr Her*** | ***Gweithredu*** | ***Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019*** | ***Cyfrifoldeb*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Monitro Chwarter 1*** |
| 2<br>2.1 – 2.4<br>2.7<br>C<br>CaA<br>ALl x 6<br>R15 | **CWRICWLWM AC ASESU - Sicrhau bod pob ysgol yn cyflwyno cwricwlwm diddorol sy'n ymateb i ofynion statudol y cwricwlwm cenedlaethol. Sicrhau bod pob dysgwr yn cael eu cefnogi i gyflawni cymwysterau sy'n eu galluogi i fod yn ddysgwyr galluog, uchelgeisiol sy'n cyrraedd eu potensial. Sicrhau bod gan bob ysgol brosesau asesu cadarn mewn lle gyda gweithdrefnau targedu, olrhain ac ymyrraeth cadarn.** | **Gwella'r ddarpariaeth, y cynllunio cwricwlwm a'r asesu yn y Cyfnod Sylfaen.** | Mae gan bob ysgol gynradd weithdrefnau cwricwlwm ac asesu priodol ar waith yn y Cyfnod Sylfaen. | Marc B.Hughes | Tymor yr haf 2018 | Mae gweithdai wedi eu cynnal yn canolbwyntio ar safoni a chymedroli disgyblion ffiniol Deilliant 4/5 a Deilliant 5/6.<br><br>Gweithdai rhanbarthol wedi eu cynnal yn ystod tymor yr haf ar gynllunio o ansawdd uchel ac addysgeg ar gyfer athrawon a staff cymorth y CS.<br><br>Mae 201 o Gynorthwywyr Addysgu wedi mynychu gweithdai Dysgu Awyr Agored a ddarparwyd yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam (cynhaliwyd yng Ngwynedd a Môn yn Hydref 2017). Nododd bron pob un bod ganddynt well dealltwriaeth o egwyddorion dysgu awyr agored effeithiol a'u bod m ddefnyddio'r syniadau a rannwyd i ddatblygu sgiliau allweddol disgyblion, creadigrwydd, sgiliau datrys problemau a lles disgyblion, drwy ddysgu awyr agored trwy brofiad. Mae 202 o athrawon meithrin a derbyn a 148 o gynorthwywyr addysgu wedi mynychu gweithdai 'Meithrin/Derbyn' (Deilliant 3 a 4). Mae'r tasgau a gwblhawyd gan y rhai a fynychodd y gweithdy cyntaf wedi eu huwchlwytho a'u rhannu ar Hwb. Nododd bron pob un a fynychodd fod ganddynt ddealltwriaeth well o sut i gynllunio a datblygu sgiliau rhifiadol disgyblion trwy |

| 2. CWRICWLWM AC ASESU<br>*Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel.*<br>*Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.* | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf*** | ***Yr Her*** | ***Gweithredu*** | ***Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019*** | ***Cyfrifoldeb*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Monitro Chwarter 1*** |
| | | | | | | brofiadau datrys problemau gwahaniaethol ym mhob maes dysgu a darpariaeth. |
| 2<br>2.1 – 2.8<br>U<br>CaA<br>ALl x 6<br>R5 | | **Gwella cynllunio cwricwlwm yn yr ysgolion uwchradd er sicrhau gwell deilliannau ar gyfer pob dysgwr.** | Mae gan bob ysgol uwchradd gwricwlwm priodol ar waith yng Nghyfnod Allweddol 4 i wella perfformiad yn y dangosyddion perfformiad allweddol. | Paul Mathews-Jones | Tymor yr haf 2018 | Mae pob un o'r 6 grŵp Cwricwlwm wedi derbyn canllawiau yn unol â Chynllun L3 drwy grwpiau arweinwyr cwricwlwm rhanbarthol - mae grŵp Meirion Dwyfor wedi rhannu arferion da mewn perthynas â datblygiad cwricwlwm, mae Arfon wedi creu diwylliant gwirioneddol ar gyfer bwrw ymlaen ac mae Sir Ddinbych hefyd wedi cyflwyno drwy'r fforwm. Mae cymorth ar gyfer datblygu sgiliau wedi bod yn llwyddiannus iawn yn ysgolion sampl PISA, a chanllawiau yn unig mewn rhai eraill. Ni chytunwyd ar gynhadledd eto. Mae'r ysgolion yn barod i ddiweddaru CA3 bellach. |
| 2<br>2.1 – 2.8<br>U<br>CaA<br>ALl x 6<br>R5 | | **Gwella ansawdd asesu, tracio a rhaglenni ymyriad yn yr ysgolion uwchradd.** | Mae arweinwyr ar bob lefel yn defnyddio systemau tracio yn effeithiol ac yn amserol i gynllunio ymyriad effeithiol fel bod 90% o ysgolion o fewn 5% i'w targedau ar gyfer L2+, a bod 60% o fewn 2% i'w targedau.<br><br>Yr un ysgol i'w barnu yn anfoddhaol ym Meysydd Arolygu 3 a 4 yn ystod arolygiad ESTYN. | Paul Mathews-Jones | Medi 2018 | Mae ymchwil academaidd wedi cael ei gomisiynu gan Brifysgol Warwick, Prifysgol Bangor a Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru i greu offeryn dadansoddi aml-lefel. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cais am gymorth ac mae adolygiad o system ddadansoddi Llywodraeth yr Alban wedi'i gynnal ym mis Gorffennaf 2018 ar ymweliad i Gaeredin. Mae arfarniad o'r ymweliad wedi'i gyflwyno i'r UDA. |

| 2. CWRICWLWM AC ASESU<br>*Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel.*<br>*Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.* | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf*** | ***Yr Her*** | ***Gweithredu*** | ***Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019*** | ***Cyfrifoldeb*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Monitro Chwarter 1*** |
| 2<br>U<br>CaA<br>ALl x 6<br>R18 | | **Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer Safon A.** | Gwelliant yng nghanlyniadau Safon A ac UG, yn unol â thargedau ac i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn dangosyddion allweddol. | Martyn Froggett | Medi 2018 | Mae GwE yn parhau gyda'r gwaith o edrych ar y ddarpariaeth ym mhob ardal yn y rhanbarth a sicrhau bod cryfder ac ehangder yn parhau ôl-16. Caiff gwybodaeth am berfformiad CA5 ei gynnwys pan fydd data cymharol a gwerth ychwanegol wedi cael ei ryddhau. |
| 2<br>2.1 – 2.8<br>C<br>U<br>CiG1<br>CiG2<br>CiG3<br>CiG4<br>CaA<br>ALl x 6<br>R19 | | **Cyflawni Cwricwlwm i Gymru - codi ymwybyddiaeth o'r Pedwar Diben o fewn CiG a datblygu'r Meysydd Dysgu a Phrofiad fel rhan o ddiwygio'r cwricwlwm.** | Mae pob ysgol yn barod i gyflwyno'r cwricwlwm newydd.<br><br>Cwricwlwm effeithiol seiliedig ar sgiliau ar waith mewn 85% o ysgolion, o'r gwaelodlin 81% presennol. | Ruth Thackery | Parhaus | Mae'r Tîm CiG yn parhau i gyd-weithio a chefnogi gwaith yr ysgolion i ddatblygu'r cwricwlwm newydd a'r dysgu proffesiynol a fydd yn dilyn o ganlyniad. Rhoddir diweddariadau cyson ar ddiwygiadau'r cwricwlwm i bob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant, er mwyn iddynt eu rhannu ymhellach gydag ysgolion. Mae blaenoriaethau a chamau gweithredu er mwyn codi safonau yn cael eu nodi mewn cynlluniau Cwricwlwm i Gymru ble'n briodol. Bydd aelodau'r tîm Cynradd, Uwchradd a Cwricwlwm i Gymru yn cydweithio, ble'n briodol, i ddiwallu'r blaenoriaethau hyn.<br><br>Mae tîm CiG GwE hefyd yn gweithio ar y cyd ag Agile Change ac ERW i ddatblygu pecyn cymorth Rheoli Newid ar gyfer pob YCG a phob ysgol. Mae rhai penaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro wedi cael hyfforddiant ar Reoli Newid fel rhan o'r hyfforddiant clwstwr. Bydd cyfle i bawb gael hyfforddiant drwy gyfrwng y pecyn cymorth, |

| 2. CWRICWLWM AC ASESU<br>*Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel.*<br>*Trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.* | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf*** | ***Yr Her*** | ***Gweithredu*** | ***Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019*** | ***Cyfrifoldeb*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Monitro Chwarter 1*** |
| | | | | | | Gweminar a hyfforddiant wyneb yn wyneb.<br><br>Mae arweinwyr clwstwr wedi dechrau ar eu gwaith ac maent mewn cyswllt â'r tîm CiG o ran cynllunio ac ennyn diddordeb clystyrau. Mae'r tîm CiG yn monitro ac yn cefnogi clystyrau wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Mae pob hwylusydd clwstwr wedi cael hyfforddiant ar ddatblygiadau diweddar i'w rannu â phob ysgol yn y clwstwr. |

| 3. ARWEINYDDIAETH<br>*Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau.* | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf*** | ***Yr Her*** | ***Gweithredu*** | ***Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019*** | ***Cyfrifoldeb*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Monitro Chwarter 1*** |
| 3<br>3.1 – 3.17<br>C<br>U<br>A<br>ALl x 6<br>R6 | **ARWEINYDDIAETH - sicrhau bod gan bob arweinydd weledigaeth addysgol glir ac yn medru cynllunio'n strategol er mwyn cyflawni hyn. Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel i ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arfer a chydweithio ar bob lefel i sicrhau bod pob dysgwr yn** | **Datblygu a gwella ymhellach ansawdd uwch arweinyddiaeth ar draws y rhanbarth.** | Mae gan 85% o Uwch Dimau Arwain brosesau Sicrhau Ansawdd ac atebolrwydd da neu well.<br><br>Gostyngiad o 50% yn nifer yr ysgolion a osodir mewn Categorïau Statudol Estyn.<br><br>Dim ysgol i'w rhoi mewn Categori Statudol Estyn yn annisgwyl.<br>Gostyngiad o 50% yn nifer yr | Pam McClean / David Edwards | Parhaus | Mae GwE yn darparu ystod o raglenni, o rai ar gyfer darpar uwch arweinwyr i rai ar gyfer penaethiaid profiadol, yn unol â'r Llwybr Datblygu Gyrfa Cenedlaethol. Mae'r rhaglenni datblygu yn hybu cydweithio ysgol i ysgol, gydag ymarferwyr effeithiol o ysgolion yn cyd-gyflwyno sesiynau gyda staff GwE. Mae hyn yn datblygu ymhellach y syniad o ddatblygu system sy'n hunan wella ar draws gogledd Cymru. |

| 3. ARWEINYDDIAETH<br>*Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau.* | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf*** | ***Yr Her*** | ***Gweithredu*** | ***Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019*** | ***Cyfrifoldeb*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Monitro Chwarter 1*** |
| | **cyflawni eu potensial. Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth ddosbarthol yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.** | | ysgolion mewn Adolygu gan Estyn.<br><br>Gostyngiad o 50% yn nifer yr ysgolion sy'n cael gradd D yng ngham 2 y broses Gategoreiddio.<br><br>Cynnydd o 25% yn nifer yr ysgolion uwchradd a chynradd sy'n cael gradd A yng ngham 2 y broses Gategoreiddio. | | | Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr arweiniol o bob ALl yn rhanbarth GwE er mwyn sefydlu pa ddarpariaeth a gynigir gan GwE a pha ddarpariaeth a gynigir gan bob ALl ar gyfer penaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro ym mhob awdurdod. |
| 3<br>3.1 –<br>3.17<br>C/U<br>A<br>ALl x<br>6<br>R6 | | **Datblygu a gwella ymhellach ansawdd arweinyddiaeth ganol ar draws y rhanbarth.** | Mae gan 85% o Dimau Arweinyddiaeth Ganol brosesau Sicrhau Ansawdd ac atebolrwydd da neu well. | Ian Kelly | Parhaus | Bydd y Rhaglen Ddatblygu Arweinyddiaeth Ganol yn cael ei weithredu fel a ganlyn:<br>• Cyflwyno rhaglen hyfforddiant i rymuso arweinyddiaeth, darpariaeth a pherfformiad a gwreiddio arfer dda [2 gohort Cymraeg a Saesneg]<br>• Rhaglenni Datblygu Arweinwyr Effeithiol a Gwella Arferion [SSAT]<br>• Cyflwyno dwy raglen hyfforddiant i arweinwyr canol [ 2 gohort Cymraeg a Saesneg]:<br><br>Bydd GwE hefyd yn cynnal hyfforddiant penodol ac yn targedu cynhaliaeth benodol fesul Awdurdodau. |
| 3<br>3.1 – | | **Cefnogi'r UDA i gyflawni Cwricwlwm i Gymru yn** | Pob ysgol yn y rhanbarth ar y llwybr iawn i gyflawni Cwricwlwm | Ruth Thackery | Parhaus | Mae GwE yn parhau i gefnogi UDA, gyda'r Tim yn meddu ar ystod o |

| 3. ARWEINYDDIAETH<br>*Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau.* | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf*** | ***Yr Her*** | ***Gweithredu*** | ***Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019*** | ***Cyfrifoldeb*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Monitro Chwarter 1*** |
| 3.17<br>C/U<br>CiG1<br>CiG2<br>CiG3<br>CiG4<br>A<br>ALl x 6<br>R19 | | **effeithiol.** | i Gymru. | | | brofiadau. Un o rolau allweddol y tîm yw gweithio gydag a chefnogi'r holl ysgolion ar draws y rhanbarth i ddatblygu'r cwricwlwm newydd a'r dysgu proffesiynol a fydd yn dilyn o ganlyniad.<br><br>O fewn strategaeth Cwricwlwm i Gymru, mae cysylltiadau clir â'r timau Cynradd ac Uwchradd presennol. Rhoddir diweddariadau cyson ar ddiwygiadau'r cwricwlwm i bob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant, er mwyn iddynt eu rhannu ymhellach gydag ysgolion. Mae blaenoriaethau a chamau gweithredu er mwyn codi safonau yn cael eu nodi mewn cynlluniau Cwricwlwm i Gymru ble'n briodol. Bydd aelodau'r tîm Cynradd, Uwchradd a Cwricwlwm i Gymru yn cydweithio, ble'n briodol, i ddiwallu'r blaenoriaethau hyn. |
| 3<br>3.1 –<br>3.4<br>3.6<br>3.10<br>- 311<br>3.14<br>–<br>3.17<br>U<br>A | | **Gwella ansawdd arweinyddiaeth adrannol mewn pynciau craidd yn yr ysgolion uwchradd.**<br>• Iaith Saesneg<br>• Cymraeg<br>• Mathemateg<br>• Gwyddoniaeth | Mae gan 85% o adrannau pynciau craidd brosesau Sicrhau Ansawdd ac atebolrwydd da neu well.<br><br>Mae arweinwyr canol yn defnyddio systemau tracio yn effeithiol ac yn amserol i gynllunio ymyriad effeithiol fel bod 90% o ysgolion o fewn 5% i'w targedau a bod 60% o fewn 2% yn y pynciau craidd. | Gaynor Murphy<br>Rhian Mair Jones<br>Dafydd Gwyn<br>Nicola Jones | Parhaus | Mae pob PA pynciau craidd yn cael arweiniad a chefnogaeth ar agweddau allweddol, a hynny yn y rhwydweithiau rhanbarthol a lleol.<br><br>Mae'r manylion ynglŷn â'r gefnogaeth ar gyfer pob adran yn y cynlluniau cefnogaeth unigol.<br><br>Mae cynllun gweithredu a chynllun busnes clir yn ei le. |

| **3. ARWEINYDDIAETH**<br>***Arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau.*** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf*** | ***Yr Her*** | ***Gweithredu*** | ***Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019*** | ***Cyfrifoldeb*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Monitro Chwarter 1*** |
| R4<br>R6<br>ALl x 6 | | | | | | |
| 3<br>3.1 – 3.17<br>C<br>U<br>A<br>R6<br>ALl x 6 | | **Datblygu Darpar Benaethiaid / Uwch Arweinwyr** | Rhaglen ar gyfer Darpar Benaethiaid ar waith. 50 o unigolion wedi'u hadnabod ac wedi cwblhau'r rhaglen.<br><br>25% o'r unigolion sydd wedi cymryd rhan wedi ymgeisio am swyddi UDA neu wedi cael dyrchafiad erbyn diwedd y flwyddyn.<br><br>Arfarniad cadarnhaol gan ysgolion a chan arfarnwr allanol ar effaith y rhaglen ar unigolion. | Ian Kelly | Parhaus | Mae GwE yn darparu ystod o raglenni, o rai ar gyfer darpar uwch arweinwyr i rai ar gyfer penaethiaid profiadol, yn unol â'r Llwybr Datblygu Gyrfa Cenedlaethol. Mae'r rhaglenni datblygu yn hybu cydweithio ysgol i ysgol, gydag ymarferwyr effeithiol o ysgolion yn cyd-gyflwyno sesiynau gyda staff GwE. Mae hyn yn datblygu ymhellach y syniad o ddatblygu system sy'n hunan wella ar draws gogledd Cymru.<br><br>Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr arweiniol o bob ALl yn rhanbarth GwE er mwyn sefydlu pa ddarpariaeth a gynigir gan GwE a pha ddarpariaeth a gynigir gan bob ALl ar gyfer penaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro ym mhob awdurdod. |

| **4. LLES**<br>***Ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles.*** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf*** | ***Yr Her*** | ***Gweithredu*** | ***Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019*** | ***Cyfrifoldeb*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Monitro Chwarter 1*** |
| 4<br>4.1 - 4.12<br>C<br>U<br>Ll<br>R11<br>ALl x 6 | **LLES - Creu'r amodau i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu fel unigolion iach, gwydn a chyfrifol yn fyd-eang a darparu system addysgol gynhwysol, uchelgeisiol, sy'n ymroddedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb fel bod pobl ifanc yn cyflawni eu llawn potensial.** | **Datblygu a gweithredu strategaeth gyffredin ar gyfer Lles ar draws y rhanbarth.** | Gweithredu'r strategaeth ar draws y rhanbarth.<br><br>Dull cydweithrediadol ac effeithiol ar gyfer cyflawni agenda genedlaethol gyffredin gyda rolau a chyfrifoldebau clir i'r holl bartneriaethau.<br><br>Gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol gyda'r holl asiantaethau allweddol sy'n cefnogi'r agenda i sicrhau effaith gadarnhaol ar bob dysgwr.<br><br>Ysgolion yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol. | Sharon Williams | Tachwedd - Rhagfyr 2018. | Mae gwaith pellach i'w wneud i gwblhau'r trosolwg o Les o fewn y sefydliad. Cynhaliwyd ystod o gyfarfodydd gydag AauLl, staff GwE a LlC.<br><br>Mae Cynllun gweithredu clir a chynllun busnes ar waith. |

| **5. ADDYSGU**<br>***Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel.*** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf*** | ***Yr Her*** | ***Gweithredu*** | ***Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019*** | ***Cyfrifoldeb*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Monitro Chwarter 1*** |
| 5<br>5.1 – 5.9<br>C/U<br>D<br>R4 | **ADDYSGU - Sicrhau bod pob athro a staff cymorth wedi'u harfogi â dealltwriaeth glir o beth yw addysgu effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth** | **Gwella a chryfhau rôl arweinwyr wrth arwain y dysgu a'r addysgu.** | Mae gan bob UDA ac AC mewn ysgolion y sgiliau angenrheidiol a dealltwriaeth o addysgu da ac eithriadol er mwyn cynnig arweiniad a hyfforddiant yn eu hysgolion. | Stella Gruffydd / Bethan James | Tachwedd 2018 | Cynhaliwyd gweithdai rhanbarthol i hyfforddi arweinwyr ysgol ar sut i ddefnyddio'r continwwm Dysgu ac Addysgu yn effeithiol. Mae 150 o ysgolion y rhanbarth wedi cymryd rhan yn y gweithdai yma. |

| 5. ADDYSGU<br>*Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel.* | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf*** | ***Yr Her*** | ***Gweithredu*** | ***Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019*** | ***Cyfrifoldeb*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Monitro Chwarter 1*** |
| R5<br>ALl x 6 | **ddibynadwy. Yn ogystal, mae'r gallu i gyflwyno ystod o ddulliau, sy'n cyfateb anghenion dysgwyr â'r cyd-destun yn effeithiol, er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar ddysgu a chyflawniad yn hollbwysig.** | | Mae addysgu effeithiol ar waith mewn 85% o ysgolion, o'r gwaelodlin 81% presennol.<br><br>Cyflawnir disgwyliadau Estyn, hynny yw, bod 85% neu fwy o wersi yn dda neu well, gan 85% o ysgolion ar draws y rhanbarth.<br><br>Cynnydd cyffredinol o 5% mewn barnau da neu well ar gyfer y dysgu a'r addysgu ym mhob ysgol a arolygir gan Estyn. | | | Caiff pob PA pynciau craidd arweiniad a chymorth ar arwain y dysgu a'r addysgu mewn rhwydweithiau rhanbarthol a lleol. |
| 5<br>5.1 – 5.9<br>C/U<br>D<br>R4<br>R5<br>ALl x 6 | | **Gwella ansawdd yr addysgu a'r profiadau i bob dysgwr.** | Cymorth a hyfforddiant pwrpasol i ysgolion risg uchel lle mae materion allweddol sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu (i'w gadarnhau).<br><br>Mae safonau addysgu yn yr ysgolion hynny sy'n rhan o Brosiect Asesu Ffurfiannol ac Addysgeg, dan arweiniad timau ymchwil weithredu Shirley Clarke mewn ysgolion, yn gyson dda neu well, gydag unigolion sy'n cymryd rhan ar Haen 1 yn arddangos arfer ragorol. Mae adroddiadau Estyn ar ysgolion sy'n cymryd rhan yn cadarnhau hyn. | Stella Gruffydd / Bethan James | Tachwedd 2018 | Mae cydweithio effeithiol ar y gweill rhwng y rhanbarth a'r ymarferydd addysg adnabyddus, Shirley Clarke. Mae 27 o ysgolion wedi ei dewis ar draws y rhanbarth i gydweithio fel timau ymchwil gweithredol dan arweiniad Shirley Clarke. Mae'r ysgolion Haen 1 wedi cwblhau eu gwaith yn llwyddiannus. Mae Diwrnod 2 gyda SC wedi digwydd ar Fehefin 14 a 15. Mae 201 o ysgolion Haen 2 wedi eu dewis drwy broses rymus. Mae gwybodaeth wedi ei gyfathrebu gydag ysgolion y 2 haen parthed digwyddiadau a dyddiadau Tymor yr Hydref. |

| 5. ADDYSGU<br>*Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel.* | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf*** | ***Yr Her*** | ***Gweithredu*** | ***Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019*** | ***Cyfrifoldeb*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Monitro Chwarter 1*** |
| | | | Effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig ac uwch. | | | |

| 6. BUSNES | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf*** | ***Yr Her*** | ***Gweithredu*** | ***Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019*** | ***Cyfrifoldeb*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Monitro Chwarter 1*** |
| 6 B | **BUSNES - Sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.** | Ymgorffori'r G6 ar draws y rhanbarth a pharhau i ddatblygu defnydd effeithiol o'r system i hwyluso cydweithio a rhannu arferion llwyddiannus. | Gwybodaeth yn cael ei defnyddio'n effeithiol ac yn amserol a hynny'n gyson ar draws pob lefel o weithredu.<br><br>Ystod ehangach o ddata a gwybodaeth fyw am gynnydd wrth law i Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant, Swyddogion yr ALl ac ysgolion. | Llyr G Jones | Mehefin 2018 | Cyflwyniad effeithiol o hyfforddiant cychwynnol G6 wedi'i gwblhau ar gyfer pob ysgol ar draws y chwe awdurdod rhwng mis Ionawr a mis Mai 2018. Mae Cam 2 o'r rhaglen waith wedi'i gwblhau'n effeithiol gan gynnwys datblygiad blaenoriaethau ar y cyd a llyfrgell adnoddau.<br><br>Cynhaliwyd cyfres o gymorthfeydd effeithiol ar gyfer YCG a staff gweinyddol ar draws y rhanbarth. Cafodd cyfres o ddogfennau canllawiau, gan gynnwys clipiau fideo, eu cynhyrchu hefyd ar gyfer GwE a defnyddwyr mewn ysgolion i gefnogi datblygiadau newydd yn y system. Mae ymgynghoriadau cynnar a gynhaliwyd gyda phenaethiaid Cynradd ac Uwchradd ar draws y rhanbarth wedi cael adborth cadarnhaol.<br><br>Roedd yr ymatebion a gasglwyd gan |

| 6. BUSNES | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf*** | ***Yr Her*** | ***Gweithredu*** | ***Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019*** | ***Cyfrifoldeb*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Monitro Chwarter 1*** |
| | | | | | | benaethiaid yn ystod cynhadledd Atebolrwydd Cenedlaethol LlC yn cyfeirio at y modd cadarnhaol y defnyddir G6. Mae pob YCG wedi cael y dasg o nodi astudiaethau achos llwyddiannus yn ystod ymweliad yr haf i boblogi G6.<br><br>Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol ar ddatblygiad prosesau sicrwydd ansawdd ar gyfer adroddiadau a chynhwysiad ysgolion. Bydd datblygiad Cam 3 yn cynnwys proffil penodol ar gyfer Ysgol GwE ar brif ddangosfwrdd G6. |
| 6<br>B<br>6.7 | | Cynnal arolwg iechyd sefydliadol | Anelu at berfformiad yn chwartel uchaf y mynegai iechyd sefydliadol. | Susan O Jones | | Ar y gweill. |
| 6<br>B<br>6.8 | | Sefydlu GwE fel Sefydliad sy'n Dysgu yn gweithio mewn partneriaeth efo LlC a OECD | Dangos cynnydd o un flwyddyn i'r llall yn erbyn 7 dimensiwn y model Sefydliad sy'n Dysgu. | Rhys H Hughes | | Mae GwE yn parhau i weithio gyda'r OECD ar ddatblygu'r Consortia a'r AauLl fel sefydliadau sy'n dysgu. Rhennir unrhyw beth a ddysgir o'r gwaith hwn gyda rhanbarthau eraill, ac yn rhyngwladol, gan ein bod yn ymdrechu i ddatblygu ymhellach sefydliad bywiog ac iach.<br><br>Mae ysgolion Dysgu Proffesiynol wedi bod yn gweithio ar ddatblygu amrywiaeth o astudiaethau peilot. Mae hyn yn cynnwys gwaith gyda'r OECD ar 7 dimensiwn yr Ysgol fel Sefydliad Dysgu, y cynnig Dysgu Proffesiynol ar gyfer Dysgu |

| 6. BUSNES | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf*** | ***Yr Her*** | ***Gweithredu*** | ***Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019*** | ***Cyfrifoldeb*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Monitro Chwarter 1*** |
| | | | | | | Digidol a hefyd ar dreialu'r Safonau Addysgu Proffesiynol.<br><br>Ysgolion fel Sefydliad Dysgu ac yn rhannu profiadau o weithio gyda safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac Arweinyddiaeth.<br><br>Mae GwE yn parhau i weithio gydag ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu ac yn rhannu profiadau o cydweithio ar ddatblygu'r Safonau Addysgu Proffesiynol newydd a'r Safonau Arweinyddiaeth newydd. |
| 6 B | | Parhau i ddatblygu'r berthynas waith i ddatblygu cyfleoedd am ymchwil gweithredol i ysgolion ar draws y rhanbarth. | | Rhys H Hughes | | Mae'r berthynas waith i ddatblygu cyfleoedd am ymchwil gweithredol i ysgolion ar draws y rhanbarth yn parhau i ddatblygu.<br><br>Mae "Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith" (CIEREI) rhwng GwE a Phrifysgol Bangor yn golygu bod y ddau sefydliad yn gweithio gyda'i gilydd i edrych ar sefydlu systemau arfarnu effeithiol o fewn ein sefydliad. Mae'r cydweithio yn golygu edrych ar ddatblygu ymchwil gweithredol o safbwynt elfennau lles, a hefyd ymchwil i elfennau arweinyddiaeth effeithiol.<br><br>Mae Prifysgol Bangor a GwE hefyd yn |

| 6. BUSNES | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Cyf*** | ***Yr Her*** | ***Gweithredu*** | ***Allbynnau a meini prawf llwyddiant 2018-2019*** | ***Cyfrifoldeb*** | ***Dyddiad Targed*** | ***Monitro Chwarter 1*** |
| | | | | | | gweithio'n effeithiol ar hybu strategaethau, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i wella deilliannau er enghraifft, prosiect NorthWORTS-SP gydag Ysgolion Seicoleg ac Addysg Prifysgol Bangor.<br><br>Mae GwE wedi cydweithio'n agos gyda'r Ganolfan ar Ddefnyddio Ymchwil a Thystiolaeth mewn Addysg (CUREE) i roi cefnogaeth effeithiol ar ddatblygu arferion ymchwil ar gyfer ystod o ysgolion ac Ymgynghorwyr penodol ar draws y rhanbarth. Mae'r cydweithio wedi llwyddo i ddatblygu map o ddulliau ymchwil a thystiolaeth. Mae ymarferwyr wedi defnyddio'r map hwn i gyfoethogi eu ffyrdd o drin a thrafod llythrennedd ar draws y cwricwlwm, pynciau STEM, gwella adborth a chynyddu lefel briodol o her mewn gwersi. |